# Grŵp Trawsbleidiol ar Ddiwygio Ariannol

## Rhannu Ffyniant: Gwasanaethau Ariannol Cynhwysol ar gyfer Datblygu a Thwf Cynaliadwy yng Nghymru

### Ystafell Gynadledda 24, Tŷ Hywel, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### 4 Tachwedd 2015 Yn cychwyn am hanner dydd

#### Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Wrth i Gymru baratoi ar gyfer y nodau datblygu cynaliadwy a ddaw drwy ei Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, bydd angen i Lywodraeth Cymru osod cynllun ariannol sy'n gymesur o uchelgeisiol a llawn dyhead er mwyn eu gwireddu.

Mae'r dull traddodiadol o ariannu yn annigonol ac mae newid patrwm mewn cyllid datblygu yn anhepgor. Mae gan gyllid Islamaidd y potensial i chwarae rôl drawsnewidiol o ran helpu i roi agenda ôl-2015 Llywodraeth Cymru ar waith.

Cyflwynodd Akmal Hanuk, Sylfaenydd a Phrif Swyddog Gweithredol yr Islamic Banking and Finance Centre, a Dr Ahmad Jamal, Uwch-ddarlithydd yn Ysgol Fusnes Caerdydd, fodel gwasanaethau ariannol integredig ac arloesol er mwyn cyflawni'r amcanion datblygiad a thwf cynaliadwy drwy gynhwysiant ariannol, dileu tlodi, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac annog menter yng Nghymru.

**<u>Yn bresennol:</u>**

| | |
|---|---|
| Darren Millar AC (Cadeirydd) | Darren.Millar@cynulliad.cymru |
| Justin Lilley (Ysgrifennydd) | jplilley@outlook.com |
| Mohammad Asghar AC | Mohammad.Asghar@cynulliad.cymru |
| Russell George AC | Russell.George@cynulliad.cymru |
| Mia Rees | Mia.Rees@cynulliad.cymru |
| Michelle Davis | michelle@cardiffpound.com |
| Freya Michaud | michaud@cardiff.ac.uk |
| Bill Hudson | bill.hudson@acecus.org |

| | |
|---|---|
| Joseph Allen | joseph.allen@abcul.org |
| Alun Jones | ajones@wcva.org.uk |
| Robert Alexander | r.alexander@eeesafe.com |
| Sarah Freeman | sarah.freeman@taicalon.org |
| Richard Essex | richard.essex@ntlworld.com |
| Dave Brown | cardiffcu@live.co.uk |
| Dennis Grenall | manager@lasacreditunion.org.uk |
| John Chown | john@williams-ross.co.uk |
| Gruffydd Meredith | sovereignwales@hotmail.com |
| Laura Nuñez | Anhysbys |
| Razwan Nazir | razwannazir@hotmail.com |
| Chris Kay | v3cjk@hotmail.co.uk |
| Pa-Modou Sowe | pmsowe27@yahoo.co.uk |
| Christopher Coughlan | christophercog@sky.com |
| Ross Balmer | ross@clo.uk.com |
| Indyren Yagambrun | neilturner@ntlworld.com |
| Neil Turner | neilturner@ntlworld.com |
| Mark Hooper | marc mark.hooper@inspirato.co.uk |
| Parch. Chris Lewis | revchrislewis@icloud.com |
| Graham Coleshill | gcoleshill@clarkslegal.com |
| David Wyn Williams | david.wyn@dailingual.cymru |

DM: Sefydlwyd y grŵp hwn i edrych ar addasu System Ariannol Cymru i wella mynediad ac atal diffygion a phroblemau. Mae'n hyfryd gweld cynifer o bobl. Faint o bobl sydd yma am y tro cyntaf? (nifer o ddwylo'n cael eu codi) Mae hynny'n wych! Croeso i bawb. Heddiw rydym yn mynd i glywed am y bancio traddodiadol a ddefnyddir yn y byd Islamaidd.

AH: Diben heddiw yw rhannu ymchwil a syniadau gyda phawb sy'n bresennol a thu hwnt. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 bellach yn ddeddfwriaeth. Mae'r syniadau'n cefnogi pwyslais ar 'lesiant' o fewn y fframwaith 'twf cynaliadwy'. Mae Nodau Datblygu'r Mileniwm bellach wedi cael eu haddasu i gyd-fynd ag agenda Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig. Y pwnc heddiw yw

**Rhannu Ffyniant: Gwasanaethau Ariannol Cynhwysol ar gyfer Datblygu a Thwf Cynaliadwy yng Nghymru**.

Yn achos ymrwymiad o'r fath, mae mesur canlyniadau yn hanfodol. Gall hyn fod ar ffurf dadansoddi ansoddol neu feintiol a bydd modd dangos meysydd sylweddol o welliant a dirywiad.

Saith amcan llesiant

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru gydnerth
3. Cymru iachach
4. Cymru sy'n fwy cyfartal
5. Cymru o gymunedau cydlynus
6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Y cefndir... Ddim yn galonogol iawn

- Yr argyfwng ariannol
- Achub y banciau
- Sgandalau (e.e. PPI, LIBOR, Cyfnewidiadau, ac ati)
- Cynnydd mewn diweithdra a chyflogaeth annigonol
- Anghydraddoldeb e.e. mae gan 85 *o'r bobl gyfoethocaf yn y byd gymaint o gyfoeth â'r 50% isaf*. ~ Christine Lagard IMF

Mae materion dosbarthiad cyfoeth yn achosi problemau i gynghorau lleol a gwasanaethau cyhoeddus wrth i doriadau yn y gyllideb greu heriau, yn rhai hen a newydd.

AJ: Yr argyfwng ariannol

Cymunedau sy'n ei chael yn anodd i gael gafael ar gyllid oedd y man cychwyn. Mae cyllid Islamaidd wedi bod yn llwyddiannus o amgylch y byd ac mae'n tyfu o hyd. Mae hyn yn wir yn y DU fel mewn mannau eraill wrth i fwy o gynhyrchion ariannol gael eu cynnig yn unol ag egwyddorion ariannol Islamaidd.

Nodwyd y bwlch mewn cyllid defnyddwyr, felly ceisiodd yr ymchwil ddeall cymunedau a'u hanghenion ariannol. Er mwyn cyflwyno egwyddorion ehangach Islam, cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda chymunedau a busnesau bach a chanolig. Edrychodd dau fyfyriwr PhD llawn amser ar y cwestiynau *Cyllid Islamaidd a Defnydd: Pam Bancio gyda'r Prif Ffrwd?* gyda'r ail fater o *Elusen: Cymunedau a Rhoddion Mwslimaidd* yn cael ei nodi fel mater pwysig.

Edrychodd y grwpiau sampl ar gefndiroedd diwylliannol amrywiol, rhyw, seicoleg, cymhelliant a diffyg cymhelliad, yn ogystal â chrefyddusrwydd, ffydd a barn am gyflogaeth, menter a chyllid busnesau bach a chanolig.

Cyn meddwl am yr her o beth i'w wneud nawr, mae'n rhaid ystyried y cwestiwn ynghylch problem pwy fyddai hyn, neu pwy fyddai'n gyfrifol am ei thrwsio.

"We cannot solve our problems with the same thinking we used when creating them" ~ Einstein

<u>AH: Hierarchaeth Anghenion Ariannol Defnyddwyr - Llwybr i Gynhwysiant Ariannol Llawn</u>

- Anghenion hollbwysig neu hanfodol fel mynediad i gyfrifon banc diogel a gweithredol.
- Taliadau a throsglwyddiadau electronig symudol bob dydd.
- Arbedion a buddsoddiadau hirdymor, gan gynnwys pensiynau, blwydd-daliadau a mwy.

- Yswiriant ar gyfer diogelu a rhoi iawndal am bethau gwerthfawr.

<u>Fframwaith Moesegol</u>

| | |
|---|---|
| Ymddiriedaeth | Ymarferwyr |
| Uniondeb | System |
| Atebolrwydd | Tryloywder |
| Haelioni | Empathi |

**Lles Cyffredin**

<u>Continwwm Llywodraethu</u>

| <u>Cydymffurfiaeth</u> | <u>Perfformiad</u> |
|---|---|
| Gweithrediadau Strwythurol | Creu Gwerth |
| Adrodd Ariannol | Cyfrifoldeb Cymdeithasol |
| <u>Gwerth</u> | <u>Cymhwysiad</u> |
| Ymddiriedaeth | Egwyddor Ariannol Islamaidd (heb log) |
| Tryloywder | Cydymffurfio a Rheoleiddio |
| Atebolrwydd | Moeseg ac Adrodd Ariannol |
| Haelioni | Datblygu Cymunedol/Economaidd |

Mae **<u>Assaddaqaat</u>** yn fenter cyllid datblygu arloesol a chynhwysol newydd. Trwy hyn mae elusen wirfoddol yn dosbarthu rhoddion i achosion da. Mae'r model yn cynnwys cynilion a benthyciadau gan ddefnyddio model undeb credyd. Gellir darparu ar gyfer busnesau bach a chanolig gan ddefnyddio microgyllid i gefnogi busnes heb ehangu dyledion o hyd mewn ffordd sy'n niweidio cynhyrchiant. Mae llawer o opsiynau ar gael i unigolion sy'n chwilio am fuddsoddiadau ecwiti, gan gynnwys menter gymdeithasol, cwmnïau cydweithredol a chwmnïau cydfuddiannol, ymysg opsiynau eraill. Gellir darparu addysg a hyfforddiant oherwydd bod gwybodaeth yn allweddol i fusnes llwyddiannus.

**<u>Creu Gwerth - Gwneud y gwahaniaeth</u>**

Elfennau mesuradwy:

i) Anghenion dynol sylfaenol
ii) Sylfeini llesiant
iii) Cyfleoedd

Effaith economaidd-gymdeithasol:

1) Cynhwysiant ariannol
2) Dileu tlodi
3) Annog menter
4) Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb

5) Cefnogi menter - masnachol a chymdeithasol

**Y casgliad... Y camau nesaf**

Adnabod pwysigrwydd cynhwysiant ariannol i dwf cynaliadwy a rhannu ffyniant.

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru chwarae rhan allweddol.

Partneriaethau cyhoeddus-preifat

Gwasanaethau ariannol fforddiadwy

**Syniadau i gloi...**

Mae yna gyfle i'r rhai sy'n dyheu i wasanaethu'r difreintiedig.

*"There is no significant example in history before our time of a society successfully retaining moral life without the aid of religion"* ~ Will Durant (Lessons pf History 1968)

**Holi ac ateb**

GCH: Pwy sydd â mynediad at y gwasanaethau hyn? A ydynt yn unigryw i'r gymuned Fwslimaidd?

AH: Mae hyn wedi symud heibio i agenda sy'n seiliedig ar ffydd. Mae'n gynnyrch prif ffrwd ac nid yw mynediad yn gyfyngedig i un grŵp. Mae'r egwyddorion sylfaenol yn seiliedig ar gyfraith Islamaidd ond mae'r gwasanaeth yno i gefnogi pawb.

Gall y breintiedig ymuno â'r fenter fel rhoddwyr a/neu fuddsoddwyr yn ogystal â defnyddwyr. Er enghraifft, un nod yw datblygu prosiectau lleol gan ddefnyddio rhoddion cymunedol.

DG: Yn Abertawe, mae'r Undeb Credyd (LASA) wedi bod yn gynnyrch sy'n cydymffurfio ag Islam ers tair blynedd. Y prif fater o'n profiadau ni yw *dealltwriaeth* o'r Egwyddorion Ariannol Islamaidd y mae'r cynnyrch hwn yn eu cynnig i bawb.

DM: Beth allwn ni ei wneud i annog y boblogaeth gyffredinol i edrych ar fancio mwy moesegol? Er enghraifft, nid yw methiannau Banc y Co-op bob amser yn dangos yr enghraifft orau ond gall ddysgu gwersi inni.

AH: Gall deddfwyr a chynrychiolwyr cyhoeddus ledaenu gwybodaeth, edrych ar ddewisiadau eraill, cynigion gwerth, astudiaethau achos a ffyrdd eraill o edrych ar y broblem o ongl newydd. Gyda chefnogaeth llywodraeth leol, mae modd taflu'r rhwyd yn ehangach a chreu perthynas agosach, gan gynnwys egwyddorion moesegol ar gyfer opsiwn ariannol teg a chyfiawn. Gall hyn gynnwys addysg a hyfforddiant, cymorth ariannol a chreu partneriaethau gyda sefydliadau eraill.

CL: Mae unigolyddiaeth wedi arwain pobl i ffwrdd oddi wrth feddwl am y 'Lles Cyffredin'. Mae'r graddau o fenthyca rheibus golygu bod angen i ni gael gwell system ariannol.

DM: Mae'r system undeb credyd yn dioddef o ddiffyg hyder i gyflwyno ystod o wasanaethau. Beth y gellir ei wneud i chwalu'r myth?

DB: Nodweddion o wasanaeth cynhyrchion undeb credyd yn galluogi darpariaeth i gymunedau ehangach.

AH: Mae angen i ni godi statws undebau credyd i'w helpu i gystadlu â banciau'r stryd fawr.

RB: Mae Fair Finance, gan weithio gyda'r Archesgob a'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr Credyd, wedi bod yn addysgu cymunedau am opsiynau a datblygu cynhyrchion fel benthyca cyfoedion i gyfoedion a benthyca gwarantwr.

DW: Gyda thoriadau cyni cyllidol yn taro cynghorau lleol yn galed, a oes modd gwneud unrhyw beth i helpu i gadw gwasanaethau fel canolfannau hamdden?

AH: Ie, dyma'r union fath o brosiectau y gallai partneriaethau cymunedol weithio tuag atynt er mwyn cael cyllid at y Lles Cyffredin.

DM: Pwy sy'n penderfynu ble y caiff y gronfa o roddion ei dosbarthu?

AH: Defnyddir arbenigedd rheolwyr buddsoddi i ddadansoddi'r risg o niwed i gynghorau a gwasanaethau ar ôl toriadau cyni cyllidol. Dylid archwilio anghenion y gymuned a dylid dyrannu cyllid lle y gall fod fwyaf o fudd. Gellir gwneud penderfyniadau trwy gonsensws ac ar sail teilyngdod. Byddant oll yn cydymffurfio â'r FCA. Byddai mentrau Ynni Gwyrdd, yn ogystal â helpu ysgolion a chymdeithasau tai, yn ymddangos fel defnyddiau da.

MA: Mae hon yn fenter dda gan fod gan Fwslemiaid draddodiad o roddion i achosion fel rhan o Assaddaqaat.

RG: (Mynegi diddordeb mewn bancio gwledig a gwasanaethau ariannol a sut y gall cyllid Islamaidd helpu yn y maes hwn).

**<u>Camau gweithredu</u>**

- Ysgrifennu at y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi.
- Cysylltu ag Undebau Credyd Cymru
- Siarad â ffrindiau, teulu a chydweithwyr ac adeiladu cymuned

**<u>Unrhyw Fater Arall - Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol</u>**

**Enwebwyd Darren Millar AC i barhau'n Gadeirydd. Cefnogwyd hyn yn unfrydol.**

**Enwebwyd Justin Lilley yn Ysgrifennydd. Cefnogwyd hyn yn unfrydol.**